CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 16. RHIF 11.] TACHWEDD, 1916. [PRIS 2c

CYNWYSIAD.

AR EDYN FFYDD.
NODION Y MIS.
"A YW YR HAD ETO YN YR YSGUBOR?" Parch. T. O. Williams, B.A.
YR YSGOL SUL. DYDD SUL.
CREFYDD. YR AWRLAIS A'R ORIAWR.
LLYFR BYCHAN.
YMRANIADAU'R EGLWYS.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

MANTEISIER AR Y CYFLEUSDRA

Os am gael OL-RIFYNAU o'r "YMOFYNYDD" o Chwefror 1901 hyd Medi 1916 anfoner ar unwaith at y Cyhoeddwr.

Pris 2½g. yr un trwy'r post.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. - - Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	IOLO MORGANWG . . .
MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
ALUN	Dr. OWEN PUGHE . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. TACHWEDD, 1916. [CYF. XVI. RHIF 11.

AR EDYN FFYDD.

BOB BORE.

Blagur myfyrdod ar gyfer pob dydd o'r wythnos.

SUL.— O, dim a wyddom am ei ffyrdd,
Ond credu wnaf mai da a fydd
Ryw ddydd, yn mhell, i bawb ryw ddydd,
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd.

LLUN.—Os ydym, ryw ddydd, am gael mynd i'r nef, rhaid ini ymdrechu'n gore i wneud nefoedd lle'r ydym yn awr, yma ar y ddaear.

MAWRTH.—Peidiwch rhedeg i gwrdd a gofid. Mae'r drygau gwaethaf yn bodoli yn aml yn y rhagweledjad yn unig. Ac yn fynych, pan y daw'r drafferth mewn gwirionedd, bydd yn hawddach ei oddef nag y beiddiem ni obeithio.

MERCHER.—Fe ddichon y cymylau fynd rhyngom ni a'r haul, ond bydd yr haul er hyny yn aros o hyd, ac fe ddisgleiria eto yn y man.

IAU.—Dy drugaredd, Arglwydd, sydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau.

GWENER.—Peidiwch ymollwng i'r arferiad o rwgnach oblegid eich cyflwr mewn bywyd ; os byddwch o hyd yn meddwl am eich anfanteision, ni fydd genych ddim amser i werthfawrogi eich pleserau.

SADWRN.—Nid oes un gwaith yn fethiant os byddwch wedi gwneud eich gore i'w gyflawni yn foddhaol. Hyd yn oed os na fydd y gwaith ei hunan yn dda, fe fyddwch chwi wedi cryfhau eich caritor, ac wedi dysgu rhywbeth wrth dreio.

NODION Y MIS.

CREFYDD YN RWSIA A PHRYDAIN.

Fe ddywedir nad yw trigolion un wyneb i ddalen y goeden yn gwybod ond ychydig neu ddim am drigolion y wyneb arall. Nid anhebyg yw sefyllfa ein gwybodaeth ninnau am wledydd eraill y tu allan i'n gwlad ein hunain. Mae gan Harold Begbie erthygl hynod ddyddorol yn yr "*Hibbert Journal*" ar bwnc ein Penawd. Nodir rhagoriaethau a diffygion y ddwy wlad, ac awgrymir fod llawer y gall y naill wlad ddysgu oddiwrth y llall. Addefa un awdwr fod pechaduriaid lawer yn Rwsia, ond bawlia eu bod i gyd yn Gristionogion. Un arall a ddywed yn darawiadol iawn fod Eglwys Rhufain yn dilyn Petr, yr Eglwys Brotestanaidd yn dilyn Paul, yr Eglwys Uniongred —hyny yw, Eglwys Rwsia—yn dilyn Ioan. Nodwedd y gyntaf yw Ufudd-dod; yr ail, Difrifoldeb Moesol; y trydydd, Cariad. Nid yw y Rwsiaid yn trafferthu am ddim ond cariad. Iddo ef cariad at Dduw yw'r angen cryfaf, cyntaf a diweddaf. Mae'n pwysfawru y cariad hwn gymaint fel y tybia y gall dyn fyw fel y mynno ond iddo beidio esgeuluso addoli Tadoldeb Duw, ac edrych ar Grist am drugaredd a maddeuant. Fel canlyniad, gellir gweled y ddelw sanctaidd—yr Eicon—yn nhŷ anllad, a'r meddwyn yn ymgrymu ac ymgroesi o flaen yr allor, a gellwch weld pobl y gwyddoch eu bod yn anfoesol mewn ffyrdd eraill, yn mynychu'r eglwys bob awr o'r dydd. Wrth gwrs, fe allwn ddweyd fod y fath grefydd yn beryglus, a gall y Rwsiaid, y rhai nid ŷnt i gyd yn ffyliaid, addef fod yna ddiffyg mawr o'r difrifoldeb moesol sy'n nodweddu'r Prydeiniwr. Ar yr un pryd fe welir mor beryglus mewn ystyr yw ein crefydd ymddygiad ni, mor ddiffygiol yw yn yr ysprydiaeth a gynyrchir gan gariad. Mae'r anllad yn adrodd eu gweddiau ac yn mynd i'r eglwys. Byddai'r Prydeiniwr ieuanc, ar ol syrthio i bechod yn ei ystyried yn rhagrith pe gwnelai hyny. Nid yw'r naill byth yn ameu bodolaeth Duw, na'r angen am drugaredd a maddeuant; tra mae'r llall yn credu yn Nuw cyhyd ag y ceidw yn foesol, a pheidia meddwl am dano mor fuan ag y syrth i bechod. Ofn rhagrith yw ein hofn mawr yma; ond yn Rwsia ni wyddant ystyr hyny. Casâwn ni ddyn fydd yn well na ni ein hunain. Yn Rwsia fe berchir y dyn a geisia fyw yn debyg i Grist gan uchel ac isel; tra byddwn ni yn eu galw yn rhagrithwyr. Mae perygl yn nghrefydd y Rwsiad; onid oes mwy yn ein crefydd ni? Mae'r hwn a gâr Dduw, o leiaf, ar y ffordd sy'n arwain i burdeb. Cyhyd ag y bydd ei wyneb yn sefydlog yn nghyfeiriad Perffeithrwydd Duw, bydd yn rhaid iddo yn gynnar neu yn ddiweddar ddianc allan o'r cysgodion. Cariad, dadblygiad yw. Mae'r dyn sydd a'i feddwl o hyd ar y "Deng Air Deddf," mewn ymdrech parhaus a'i hunan, ac wrth geisio boddloni gofynion cydwybod mae'n anghofio cariad

anorchfygol y Tragwyddol. Mae'n wastad mewn perygl, a thangnefedd nid yw byth yn rhan o'i brofiad. Mae yn nghrefydd Rwsia lawer o ofergoeledd, ac ofnir wrth golli hwnw y collir crefydd. Eto y mae genym ni lawer i'w ddysgu oddiwrth Rwsia, a chan Rwsia lawer i'w ddysgu oddiwrthym ni.

CRISTNOGAETH FEL MAE'N YMDDANGOS I IUDDEW.

Fe gredir yn gyffredin yn mhlith y Methodistiaid mai Geiriadur Charles a Rhodd Mam yw y "gair diweddaf" ar grefydd Cymru, os nid ar grefydd y Byd; ond y mae rhywun, mewn erthygl alluog a darllenadwy, yn y "Beirniad" diweddaf wedi beiddio ameu hyny. Yn gyffelyb, nid oes yr un syniad mwy cyffredin mewn llenyddiaeth Gristnogol, ebe C. F. Montefiore, na'r syniad mai'r "gair diweddaf" yn nadblygiad crefydd yw Cristnogaeth, ac yn naturiol, *fel Iuddew*, mae efe yn ameu hyny. Fel M. Loisy mae Montefiore, yn ameu a oes y fath beth a chrefydd berffaith yn bod. Cafodd ef ei ddwyn i fyny i gredu mai Iuddewaeth ac nid Cristnogaeth oedd y grefydd berffaith. Syniad digrif yn ngolwg Cristnogion, yn ddiameu. Iddynt hwy crefydd amherffaith yw Iuddewaeth, yn unig am mai parotoad oedd i Gristnogaeth—y naill yr hedyn, y llall y blodeuyn. Nid yw duwinyddion Cristnogol yn darllen llyfrau Iuddewig; ni ystyriant hwy yn werth y drafferth; ond y mae myfyrwyr Iuddewig yn darllen llyfrau Cristnogion. Beth yw'r Iuddewaeth ystyria'r Cristion yn amherffaith? Yr Hen Destament, wrth gwrs, neu Iuddewaeth y gaurif gyntaf. Ond y mae Iuddewaeth wedi dadblygu llawer oddiar hyny, ar hyd ei llinellau ei hun, ac y mae llawer ffurf o honi heddyw. Nid yw'r Gristnogaeth a ystyria'r Iuddew yn israddol i Iuddewaeth yn gyfyngedig i lyfr nac oes, ac eto mae'r Testament Newydd yn ffurfio rhan helaeth o honi. Mae pob Iuddew rhyddfrydig yn barod i gydnabod fod amherffeithderau yn yr Hen Destament. Mae'n amheus a ganiata'r Cristion rhyddfrydig fod amherffeithrwydd crefyddol yn y Newydd. Nid oes galw am nodi engreifftiau. A ydyw yn rhyfeddod fod yr Iuddew weithiau yn gwenu pan y mynychebir amherffeithrwydd yr Hen Destament a pherffeithrwydd y Newydd yn ei glustiau? Pa un uwch, yr amgyffrediad o Dduw yn yr "Ail Esaiah" a Psalm 139, neu ynte'r un awgrymir gan gysylltiad y geiriau, "cysgoda," "colomen," "darn o bysgodyn wedi ei rostio," neu'r darlun o un person dwyfol yn eistedd ar ddeheulaw person dwyfol arall. Eto nid yr Efengylau yw yr oll o'r Testament Newydd. Wele yma Paul hefyd; "Mae Iuddewaeth Rhyddfrydig dan rwymau llai i lynu wrth feddylddrychau a geiriau unrhyw lyfr neu berson nag yw Cristnogaeth Ryddfrydig, ac os ydyw yn pigo brychau yn yr Efengylau oni all hefyd bigo blodeu teg a phrydferth oddiyno, a'u hychwanegu at flodeugiwm Iuddewig? Oni fyddid wrth hyny yn chwanegu un blodeuyn Iuddewig at un arall? Oni fyddant oll wedi tarddu o'r un ffynnon Iuddewig gyffredin?

Y PARCH. R. J. CAMPBELL.

Pan aeth Mr. Campbell drosodd i'r Eglwys Sefydledig, fe barodd syndod a chleber a pheth triniaeth arw. Mae yn awr wedi cyhoeddi ei Apologia mewn llyfr 7/6, o dan yr enw, "*A Spiritual Pilgrimage.*" Fel pob peth wna, mae yn ddyddorol. Peth arall yw, a ydyw yn foddhaol? Rhydd eglurhad o'r paham y cefnodd ar Anghydffurfiaeth, ac y mae wedi gallu gwneud hyny, yn wahanol i rai sy wedi cefnu o'i flaen, heb wneud ymosodiadau angharedig ar neb.

Nid yw yn gallu edrych yn ol ar ei ran yn nadleuon y gorphenol gydag un math o bleser, a gobeithia na fydd eisieu iddo byth eto gymeryd rhan mewn ymrysonau duwinyddol. Ystyria fod ei lyfr ar y "New Theology" wedi ei ysgrifenu yn rhy frysiog, a'i fod fel canlyniad yn amrwd ac yn anfoddhaol.

Nodweddir ei lyfr newydd drwyddo gan arwyddion amlwg o siomedigaeth. Dywed na chollodd yr un cyfaill o blith y Catholiciaid a'r Anglicaniaid yn amser dadl y "New Theology," ond nad yw yn gwybod iddo gadw cymaint ag un yn mhlith yr Anghydffurfwyr. Dylanwadau Anglicanaidd a'i moldiodd pan yn fyfyriwr yn Rhydychen, a chyfrifa y Deon Pigot fel ei dad ysprydol—y personoliaeth mwyaf rhagorol a adwaenodd erioed. Nid yw yn gwybod fod Anghydffurfiaeth wedi gwneud dim tuag at adeiladu ei fywyd crefyddol. Wrth gwrs, fe gofir mai Eglwyswr oedd pan yn fyfyriwr yn Rhydychen.

Pan gafodd wahoddiad i Brighton, ymgynghorodd a Dr. Fairbairn, yr hwn a'i cynghorodd i'w derbyn, ond nis gwnaeth. Cafodd ail wahoddiad. Dywedodd Dr. Fairbairn—'D allwch chi ddim ei wrthod. Galwad oddiwrth Dduw yw. Fe'i derbyniodd, a bu'n weinidog llwyddiannus iawn yno, nes symud i'r "City Temple."

Dywed nad ei waith ef oedd iddo adael y "City Temple," ewyllys Duw oedd. Ymunodd a'r Eglwys Sefydledig, nid am ei fod wedi colli ei ffydd yn nilysrwydd y weinidogaeth Gynulleidfaol, ond am ei fod yn teimlo y caiff ei anian a'i natur gyfle i well mynegiant yn yr Eglwys Anglicanaidd.

Dr. JOHN CLIFFORD.

Cyrhaeddodd y Parch. John Clifford, M.A., B.Sc., D.D., ei bedwar ugain oed, Hydref 16, ac fe'i dathlwyd gan y cyhoedd gyda llawer iawn o barch. Bedyddiwr enwog yw Dr. Clifford, a thra rhyddfrydig. Mae telerau aelodaeth yn ei eglwys yn eang. Y mae yn un o'r ychydig Anghydffurfwyr na ddarfu droi eu cefnau ar y Parch. R. J. Campbell ar adeg twrw y "New Theology."

"A YW YR HÂD ETO YN YR YSGUBOR?"

Eleni eto dathlwn wyl o ddiolchgarwch ac o lawenydd ynghanol trueni a thristwch bywyd. Nid gwên geir ar lawer grudd yn y wledd, ond deigryn gloyw; nid llawenydd, ond pryder a thristwch. Y mae dynoliaeth yn ymdrabaeddu yn ei gwaed, y cedyrn yn ymgodymu, y gwirion a'r diniwed yn dioddef, ac yr y'm ninnau yn cadw gwyl!

O synfyfyrio, amled canfyddwn dristwch a llawenydd ymhlêth ym mywyd dynoliaeth. Tebig ydyw gydag anian. Heddyw y mae'r haul yn tywynu; yfory daw'r gawod law—

Glas a chwmwl,
Haul a chawod,—

dyna ydyw bywyd dyn hefyd.

Ond dylasem gofio mai nid Duw sydd yn hau galanas a difrod. Mae Efe eleni eto yn glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn—y mae Efe yn diwallu popeth byw â'i ewyllys da, ac er gwaethaf ein galar a'n tristwch rhaid i ni ddywedyd gyda'r proffwyd, "canys oddiwrthyt ti y mae pob peth, ac o'th law dy hun y rhoisom i ti."

O feddwl fod cymaint o angen diolch eleni, os nad mwy, o gofio fod Serbia heb gynhaeaf, o gofio fod Poland a Belgium wedi eu braenaru, a neb i hau; o feddwl ai teg oedd dathlu'r wyl er gwybod ohonom mai'r un Duw oedd wedi anfon rhoddion diderfyn ei gariad, digwyddais ddarllen llyfr y Tad Nicholai, "*Serbia in Light and Darkness.*" Darlun ydyw o hanes Serbia wrol. "Nid oes ond dau liw yn hanes Serbia," meddai,—"lliw gwaed a lliw du caethiwed." Rhyw bum cant o flynyddoedd yn ol, ymladdodd y Serbiaid yn erbyn y Sultan, ac ar faes Kossovo fe'u trechwyd. Dinistriwyd Rhyddid Serbia, a thorrwyd y "Groes," ond erys yspryd y Serb mor wrol a chynt, a cheidw wledd i gofio Kossovo—gwledd o lawenydd, ac nid galar—llawenydd fod y Serb wedi brwydro tros y Groes a thros Ryddid.

Rhyw yspryd cyffelyb a feddiana lawer o'n cenedl ninnau heddyw—yspryd o lawenydd ac o ddiolchgarwch fod Prydain wedi anghofio'i hun o glywed cyfiawnder a dynoliaeth yn galw am Waredwr. Myn llawer ei esbonio fel hyn ac fel arall—ond o weled yr eneth yn gwrthod wylo am ei milwr; o weled Rupert Brook yn marw'n gynnar; o weled ieuenctid fy ngwlad yn syrthio fel dail crin yr Hydref, credaf fod yna rywbeth yn rhagor na balchder cenedl yn y galon,—nid brwydro am fuddugoliaeth yn unig a wneir, ond edrychwn yn hytrach ar genedl yn wynebu "Calfaria yn ei hanes," ac yn hanes dynoliaeth, er i ddynoliaeth burach a gwell godi o waed y merthyron. Dyna ddelfryd uchel ein cenedl. Ac y mae rhai o honoch wedi gweled y darlun o'r Kaiser a Brenin Belgium pan ddywed y Kaiser wrtho, o weled Belgium yn anghyfannedd, ei fod wedi colli'r cyfan. "Nac ydwyf," atebai'r brenin, "nid wyf wedi colli fy enaid." Ac yr wyf finnau ar bwys y darluniau hyn—ar bwys dynion a chenhedloedd yn dewis y ddelfryd—am arwain eich meddyliau oddiwrth y materol—oddiwrth y daearol—at ddelfryd ac at y cyfle coll (*the lost chance*).

Gadawer i ni yn adeg y cynhaeaf gymeryd darlun o fyd natur yn sylfaen. Cymerwch amaethwr yn gadael cartref yn y gwanwyn, ac yn rhoi gofal ei dyddyn i'w wâs, ac yn dychwelyd yn yr hydref—adeg y cynhaeaf! O rodio hyd y meysydd, disgwyl weled y gwenith gwyn yn

tonni yn y gwynt,—disgwyl weled yr ŷd yn doreithiog, fel cynnyrch llafur y gwas, ond arall yw'r hyn a wêl. Y mae meysydd ei gymydogion yn felyn gan ŷd, a'i feysydd yntau yn felyn gan eithin. Y mae'r aradr a'r ôg yn segur, y mae'r crymman dan y tô, ac y mae'n troi at y gwas, gan ofyn iddo, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Wele gyfle coll; wele un heb aredig na thrin ei dyddyn; wele un yn yr hydref a'r "hâd eto yn yr ysgubor." A welsoch chwi erioed goeden yn peidio bwrw allan ddail, ond coeden grin? A welsoch chwi erioed y wenynen yn anghofio'r blodau? A welsoch chwi erioed yr aderyn yn anghofio'i nyth?

Y mae holl anian yn cadw'i thymor, yn cofio'r gwanwyn, ac yn yr hydref ceir afalau ar y pren, ceir mêl yng nghwch y wenynen, a cheir adar bach yn y nyth,—a'r wers a ddysg anian a phrofiad i ni ydyw—cofia'r gwanwyn—cofia dymor aredig a hau.

Ond y mae dyn yn fynych yn anghofio'r wers. Cred ef y bydd i Dad y Trugareddau ofalu; ond nid yw Duw yn gweithio tros neb ond tros y sawl a ymdrecho, ac oni fraenerir a hau yn y gwanwyn, ni bydd gennym ond meysydd llwm yn yr hydref, a chawn glywed llais y proffwyd yn gofyn, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Dyna ddarlun o fywyd, cofier! Goruchwyliwr ydyw dyn, a bywyd ydyw'r tyddyn, ac yn yr hydref, pan gawn ein galw adref—pan gawn ein trosglwyddo os mynner i dyddyn arall, gofyn ein Tad i ni, o weled sawl cyfle a gollasom, o weled mor llwm o weithredoedd da yw ein bywyd, o weled dôl ein bywyd heb yr un dywysen lawn, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Meddyliwch am ein cenedl ni ym myd dysg heddyw. Y mae nifer enfawr ohonom heb glywed ond y nesaf peth i ddim am gewri ein cenedl. Pa sawl un ohonoch, tybed, sydd wedi darllen Shakespeare a Miltwn ac awduron ereill? Pa sawl un ohonoch sydd wedi clywed son am Homer a Dante? A oes yma rywun yn y gynnulleidfa hon wedi darllen Hen Fabinogi Cymru, Gweithiau Dafydd ap Gwilym, neu Weledigaethau y Bardd Cwsg. Dyna lên i gyfoethogi'r meddwl ac i eangu gweledigaeth dyn, ond gofynwn ni gyda'r proffwyd oherwydd ein hanwybodaeth, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Edrychwch ar Groeg heddyw, yn ddiymadferth mewn gwarth a chywilydd, yn destun dirmyg a gwawd y cenhedloedd, ac o'i gweled gofynwn, 'Ai nid tros Roeg y bu farw Leonidas a'i wyr yn Thermopylæ? Ai nid Groeg fu yn gartref celf a llên, ac yn gartref Rhyddid?' Ie, ond erbyn heddyw y mae Groeg wedi anghofio'r ddelfryd—y mae Groeg wedi anghofio'i hunan a'i goffennol, ac y mae *hâd* y genedl gynt yn yr *ysgubor*.

Na thybier fod Prydain, er wedi dewis y ddelfryd, yn glynu wrthi ymhob cylch o fywyd. Edrychwch oddiamgylch i chwi. Gadewch farddoniaeth am dro, a darllenwch ystadegau. Pa faint a wariodd Prydain y llynedd ar ddiodydd meddwol? Prydain oleu!—Prydain grefyddol! Er fod y tlawd yn aml yn brwydro er cadw angen draw, er fod llawer teulu yn pryderu am eu cynhaliaeth, eto yr oedd Prydain yn fodlon gwario naw ugain miliwn ar ddiodydd meddwol er llychwino moes ein hieuenctid, er llanw ein carchardai a drwg-weithredwyr, ac er gwneuthur ein trefi a'n cartrefi yn loches i anfoesoldeb. Dyma genedl oedd yn ofni rhoi ryw saith miliwn i gadw'r henafgwr o dloty'r undeb. Dyma genedl eto fydd yn ofni rhoi moddion cynhaliaeth i'r milwr anafus a'i deulu er eu cadw uwchlaw eisiau. Ar waethaf ei breintiau, y mae Prydain ar y pwynt hwn yn wlad y cyfle coll (*the country of the lost chance*). Edrychwch ar Ffrainc a Rwsia yn cymeryd y cam at burdeb a moesoldeb, ond Prydain eto'n gaeth. A glyw mo'n cenedl ni y proffwyd yn gofyn iddi er ei

blys a'i gwanc, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?" A wnei di ddim er puro dy genedl dy hun, ac er puro dynoliaeth?

'Codi dynoliaeth yw'r cwestiwn,—
Rhoi hawl i werinwyr fyw;
A charu ein gilydd a chariad brwd
Yw'r ffordd ini garu Duw.'

Y mae Prydain, meddir, yn un o wledydd cyfoethocaf y byd—nid oes ball ar ei hadnoddau—nid oes ddiwedd, ellid tybio ar ei *Silver Bullets*. Ond meddyliwch am y miloedd o amddifaid,—o *street arabs*—sy'n tramwy'i heolydd. Meddyliwch am *ddividends* y cwmniau yn yr amseroedd hyn, a llawer wyneb yn gwelwi wrth feddwl am yfory.

Y mae Prydain yn ei chyfoeth a'i balchder yn anghofio'i dynoliaeth—yn anghofio ei gwir gyfoeth. Pwy, tybed, oedd un o'r cyntaf i ennill y Victoria Cross? Ai nid un o wehilion cymdeithas o *slums* un o'n trefi mawr? A oedd ei Brydain ef yn werth iddo farw trosti?

Onid yw gwerin ein gwlad yn galw am gyfiawnder—yn galw am chware têg—yn galw am gyfle i fyw yn lân a phur—a thry at Brydain heddyw gan ofyn iddi o wneuthur yr aberth mwyaf—"A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Y mae rhai ohonoch hwyrach wedi darllen yr ymchwil am y Sant Greal yn rhamantau Cymru. Y mae marchogion Llys Arthur yn myned i edrych am dano, ond rhaid cael dwylo glân a chalon bur cyn ei weled. Dyna ydyw bywyd i mi. Y ddelfryd yw'r Sant Greal, a ninnau yw'r marchogion. Nid yw'n gofyn henaint na phrofiad, ond dwylo glân a chalon bur, ac y mae Dr. Jacks, ein prifathro yn Rhydychen, yn cymeryd golwg gyffelyb arni. "Ni ddylasem," meddai, "feddwl fod ieuenctid wedi'u haberthu." Os ydynt wedi gweled y ddelfryd—os ydynt wedi canfod amcan uchaf dynoliaeth drwy fyw i ereill a marw yn aberth byw tros gyfiawnder a thros ddynoliaeth—os ydynt mewn geiriau ereill wedi canfod y Sant Greal, y maent wedi gorchfygu bywyd—mewn gair, y mae'r hâd wedi'i ddwyn o'r ysgubor ac wedi'i hau er i genedlaethau ei fedi mewn rhyddid a chyfiawnder.

O sôn am aberth a chariad, try ein meddyliau yn fynych at yr Iesu. Trwyddo Ef y canfuasom Dduw fel Tad Cariadlawn. Trwyddo Ef y canfuasom ddyn yn frawd, a charu cymydog fel ni ein hunain yn arwyddair bywyd. Onid Efe oedd Tywysog Tangnefedd yn pregethu Cariad Brawdol? Edrychwch ar ein byd ni heddyw, wedi dwy fil o flynyddoedd o Efengyl yr Iesu. Y mae Ewrob yn foddfa gwaed; y mae'r cartrefi yn aberth i'r fflamau; y mae angel dinistriol yn yr awyr a than y mor; y mae miliynau mewn cynnar-fedd; y mae'r gwirion a'r diniwed ar ffo, a'r gwledydd yn anghyfannedd; ac nid oes i ninnau ond wylo deigryn o siom ac o bryder o weled dynoliaeth yn yr affwys. Pa bryd, tybed, y gwradewir ar lais yr Iesu? Ac yn y cysylltiad hwn yr wyf am alw i'ch cof hanesyn am un caplan o'r fyddin. O weled y milwyr yn y Dardanelles yn syrthio ymhob cyfeiriad, gorchymynodd y cadfridog ar i neb beidio croesi mwyach i weini arnynt; ond troes y caplan ato gan ddywedyd, "Yr wyf yn myned; y mae gennyf *orders* oddiwrth awdurdod uwch—oddiwrth yr *Higher Command*." A dyna yr wyf finnau yn ofyn heno—Pa bryd y bydd dynoliaeth yn gwrando ar yr *Higher Command?* Pa bryd y bydd yn gwrando ar yr Iesu, ac nid ar Gaiser na Sultan? Pa bryd y dwg yr hâd—hâd efengyl cariad a thosturi o'r ysgubor a'i hau yng nghalonnau dynoliaeth? O weled yr alanas a'r difrod, peidiwch a sôn am yr Iesu—peidiwch a sôn am efengyl cariad. I galon dynoliaeth heddyw nid yw'r Iesu erioed wedi ei eni. Ymadrodd gwag ac ofer yw ei efengyl i lawer, ac nid gallu—gallu i weddnewid bywyd cymdeithas; gallu i weddnewid calonnau a bwriadau dynion er gwell;

gallu i ddadwreiddio rhyfel a chreulonder, ac i blannu Heddwch a Chyfiawnder yn y galon.

Pwy ddydd, darllenwn lythyr o'r ffosydd yn Ffrainc, yn un o newyddiaduron Llundain, a dywed yr ysgrifennydd fod y milwyr yno wedi deall beth yw anrhydedd, beth yw cyfiawnder, beth yw caru brawd a maddeu i elyn, beth yw hunanaberth ac addfwynder, ond nad ydynt erioed wedi eu cysylltu a chrefydd, a chwyna fod y caplaniaid yn achwyn ar y dynion hyn am nad ydynt yn gweddio, am nad ydynt yn mynychu'r cymundeb, ac am nad ydynt yn gwneuthur eu heddwch a Duw.

Y mae'r llythyr yn dangos yn eglur, mi gredaf, y gwahaniaeth rhwng y milwyr a'r caplaniaid—rhwng y werin a'r eglwys gartref. Oni ddaw'r werin i yfed o'r hen gostrelau, ni chaiff mo'r gwin. Hyd yn oed ar faes y gyflafan rhaid cael yr hen gostrelau, yr hen seremoniau—ond oni ddywedodd yr Iesu am beidio rhoi gwin newydd mewn hen gostrelau, rhag colli'r gwin?

Y mae eisiau gwrthryfelwr ym myd crefydd. Y mae'r milwyr yn y ffosydd, wrth sefyll wyneb yn wyneb ac angau, wedi canfod *realities* bywyd—wedi canfod pethau o wir werth—nid shiboleth mwyach, ond crefydd; nid costrelau, ond gwin newydd; nid caplan, na sect, na phlaid, ond *dyn*; a chredaf pan ddychwelant o weled y tân wedi diffodd ar yr allor, o weled yr ymgiprys a'r ymbleidio, y trônt ymaith oddiwrth yr eglwys, gan ofyn mewn siom a syndod, "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?"

Credaf na ddylesid cloffi rhwng dau feddwl. Credaf y dylasem blygu pen mewn cywilydd, ac ateb, "Ydyw, y mae'r hâd yn yr ysgubor?"

Y mae'r rhyfel hwn yn gyfle coll—y mae bywyd yn *series of lost chances.* Gwn am y dadblygiad a'r cynnydd—gwn am drugaredd a thosturi ar hyd a lled y wlad; ond gwelaf hefyd y cyfle coll—y cartrefi amddifad, yr aelwydydd oer, a'r beddau dinod yn Ffrainc; ond gobeithiaf weled gweledigaeth well—gobeithiaf weled gwerin yn manteisio hyd yn oed ar gyfle coll. Y mae'r werin heddyw wedi agor ei llygaid, ac edrych i'r dyfodol yn wrol ac yn benderfynol. Os ydyw brenhinoedd a magnelau wedi braenaru calonnau dynoliaeth, gwylia, Werin! rhag iddynt eto hau. Os mai hwy fu'n braenaru, gwerin sydd i hau. Y mae'r hâd yn yr ysgubor; y mae'r ddaear wedi ei haredig, ac y mae gwerin o'r diwedd yn hau hâd efengyl yr Iesu, yn hau hâd rhyddid a chyfiawnder, yn hau hâd cydraddoldeb a chydweithrediad, ac y mae wedi dyfrhau'r meysydd a gwaed ei chalon.

Y mae rhai ohonoch wedi darllen y gân Saesneg, "*The Raven*," gan Edgar Allan Poe; ac o holi i'r gigfran, ceir yr un ateb—*Never more.* Pan sonio brenhinoedd a phendefigion am ryfeloedd, a gorthrwm, a thywallt gwaed, yr wyf am glywed llais gwerin pob gwlad yn ateb—*Never more.*

Y mae'n bryd i eglwys y Duw byw buro ei hun, gan fagu bywyd er rhoi cyfeiriad iawn i dyhewyd y werin—y mae yna wanwyn ardderchog wrth law. Y mae'r ddaear wedi'i braenaru; y mae'r hâd yn cael ei ddwyn o'r ysgubor; a dyna'r gofyniad yw, "Beth fydd y cynhaeaf i'r oes nesaf ac i ddynoliaeth?" Nid rhyfeloedd a thywallt gwaed, ond gwerin a dynoliaeth ddedwydd yn byw yn lân a phur, yn parchu egwyddorion rhyddid a chyfiawnder; gwerin wedi ennill nef a daear newydd, heb orthrwm na thrais, heb dlodi nac anfoesoldeb, a chenhedloedd y byd yn plygu glin ger gorsedd wen Cariad Tad, ac yn cerdded yn llwybrau'r Iesu. Dyna'r ddelfryd—dyna'r diolchgarwch goreu i Dduw—ac wrth ofyn "A yw yr hâd eto yn yr ysgubor?" a ydyw'r cyfle hwn eto i fod yn gyfle coll yn hanes ein cenedl, yn hanes yr eglwys, ac yn hanes dynoliaeth? Dywedaf—

Brwydrwn, gydwladwyr, tros Iawnder,
Brwydrwn tros hawliau'r tlawd;
Calon wrth galon yw neges
Dynoliaeth, a brawd wrth frawd.

T.O.W.

YR YSGOL SUL.

Nid wyf wedi gweled gair yn YR YMOFYNYDD ar bwnc yr Ysgol Sul er ys llawer blwyddyn, a meddyliaf y gall yr ychydig linellau a ganlyn fod o ddyddordeb i rai o'ch darllenwyr. Perthyn i'r eglwysi Undodaidd yn Nghymru 27 o ysgolion – 14 yn dal cysylltiad a'r gymdeithas Seisnig, a 13 yn perthyn i'r un Gymreig. Cyfanrif yr oll sydd wedi anfon eu cyfrifon i fewn, yn athrawon a phlant, yw 2,555. Ofnwn fod y rhif gryn lawer yn llai nag oedd 30 mlynedd yn ol, ac y mae hyn yn galw am sylw. Mae'r adroddiad hyd Ragfyr 31, 1915.

Mae yn Llundain 27 o ysgolion gyda 3,646 o ysgolheigion. Yn Lerpwl mae yr ysgol fwyaf, eiddo'r Parch. T. Lloyd Jones, gyda 650. Y mae yno un ysgol arall yn rhifo 451. Yn Manchester mae dwy ysgol dros 400, a dwy eraill dros 300. Yn Birmingham mae un yn cynwys 516, ac un arall 327.

Nid oes ond pump ysgol o Gymru yn cyfranu at Gymdeithas yr Ysgol Sul yn Llundain, ac nid yw'r cyfanswm ond £1 7s. 6c. Mae'r pump ysgol hyn yn Morganwg. Wele'n canlyn ychydig fanylion pellach.

R.J.J.

SIR ABERTEIFI.

	Athrawon.		Ysgolheigion.		
	Rhif ar y Llyfrau.	Cyfartaledd.	Rhif ar y Llyfrau.	Cyfartaledd.	Uwch 16 oed.
Alltyplaca	4	2	66	33	16
Bwlchyfadfa ...	6	5	65	45	40
Caeronen	3	...	34	...	9
Capelybryn ..	8	7	88	60	44
Capelygroes ...	6	5	61	45	30
Ciliau	2	...	27	...	15
Cribyn	12	8	90	72	40
Llanbedr	21	7	75	45	30
Llandyssul ...	6	4	70	46	30
Llwynrhydowen ...	7	5	77	41	51
Pantdefaid ..	6	4	72	45	32
Rhydygwin ...	4	...	44	...	28
Sychbant	5	3	37	24	12

MORGANWG A MYNWY.

H. D. Cwrdd, Aberdar	8	5	65	44	35
Highland Place, eto ...	6	6	45	39	18
Abertawe	6	5	49	36	14
Sketty Road ...	2	2	12	10	...
Caerdydd	8	...	88	62	17
Cefncoed	11	10	143	100	...
Merthyr	2	2	18	10	6
Mountain Ash ...	7	...	100	75	26
Newport, Mon. ...	3	2	7	5	...
Nottais	6	5	55	46	12
Pentre	3	3	24	24	20
Pontypridd ...	6	4	46	26	9
Trebannos ..	13	12	184	140	70
Wig	5	3	31	25	7

DYDD SUL.

Dydd Sul, dydd i addoli yw. Dydd yw i ddod allan oddiwrth bob peth sydd yn tynu dyn i lawr, a'i arwain i awyrgylch uwch a dwyfolach. Dydd yw i sefyll wyneb yn wyneb a'r anfarwol mewn dyn. Dydd yw i sefyll wyneb yn wyneb a Duw ac a thragwyddoldeb. Yr wyf wedi meddwl lawer gwaith, pan ddarfu i Iesu ddweyd wrth Petr ac Iago ac Ioan, Dewch gyda mi i Fynydd y Gweddnewidiad, ai gyda chamrau diog y darfu iddynt fynd, gan ymesgusodi a dweyd, "Mae'n galed i ddringo, paham na allwn ni aros i lawr yma gyda'r naw eraill?" Dyma ddydd sydd yn ein codi uwch awyrgylch y mwg, ac yn rhoddi i ni gipdrem ar y wybren las; yn ein codi o'r awyr afiach, ac yn rhoddi ini anadliad fydd yn cynyrchu bywyd newydd. Cymerwch y Sul fel dydd gorphwys. Ar bob dydd arall daw cydwybod i guro wrth eich drws ac i'ch galw at waith; ar y dydd hwn gorchmyna chwi i orphwys.

Piwritaniaeth wnaeth hyn drosom; gosododd gydwybod o du gorphwys; ac ni fu ar bobl erioed fwy o angen am gydwybod o du gorphwys nag sydd arnynt heddyw. Dydd Llun, Mawrth, Mercher, Iau, Gwener, Sadwrn, daw dyledswydd i guro wrth eich drws. Cwyd siopwr; mae'r cyfrifon yn galw am eu trefnu. Cwyd athraw; cwyd hwn, cwyd arall, mae gorchwyl bywyd yn galw at waith. Ar fore Sul daw'r un gydwybod i guro wrth y drws. Dim cyfrifon heddyw, nid iawn mantoli'r cyfrifon heddyw, nid iawn meddwl am danynt. Dim siop, dim marchnad, dim pwll glo heddyw! Dim ond cydwybod fedr wrthwynebu cydwybod. Oni chawn gydwybod o'n tu ar y Sul ysgubir ein Sul i ffwrdd, nid yn unig drwy ruthrgyrch diwydianau, ond drwy ofynion ein synwyr moesol ein hunain. Dymunwn petai'r Sabbatariaid yn rhoi heibïo bregethu Sabbath fel dyledswydd, a chyhoeddi'r Sul yn lle hyny fel rhagorfraint o'r gwerthfawrocaf. —*L.A.*

CREFYDD.

Yr wyf am ysgrifenu ychydig o eiriau plaen yn nghylch crefydd—yn nghylch yr unig beth o wir bwys, yr un peth angenrheidiol, os yw ein bywydau i gael eu hachub rhag methiant a thrychineb. Yr hwn nid yw yn credu a ddemnir—mae'n ymadrodd caled, ond y mae yn wirionedd y gellir yn rhwydd ei brofi. Ystyr "damnio" yw "condemnio." Nid oes a fynno a thynged dyn mewn byd arall. Mae'r dyn sy'n trefnu ei feddwl neu ei fywyd ar egwyddorion cyfeiliornus, yr hwn nid yw yn ufuddhau i'r gwirionedd, wedi ei gondemnio neu ei ddedfrydu i fethiant fel canlyniad. Mae crefydd yn golygu adeiladu ein bywydau ar egwyddorion iawn, ac felly yn sicrhau "iachawdwriaeth," nid fel rhywbeth wedi ei ychwanegu o'r tu allan, ond fel canlyniad naturiol ein uniondeb. Adeiledwch eich bywyd ar sylfaen sicr, a chewch eich "achub" rhag

anffawd a methiant. Adeiledwch ef ar "sylfaen o dywod," a byddwch yn "golledig," yn "gondemniedig," yn "wrthodedig." Dyna i gyd - ond meddyliwch ystyr - *i gyd.*

Nid yw yr eglwysi Undodaidd yn sefyll am y dull arferol o grefydd, feallai, ac nid ydym yn arferol o son llawer am ein cred a'n profiad crefyddol, ac eto mae rhai o'n milwyr wedi ein synnu drwy ddefnyddio iaith sydd yn dangos ysbryd difrifol, dwfn, a dymuniad gonest am ryw gyfarwyddyd crefyddol.

Nid wyf fi'r un o'r rhai hynny sydd yn credu fod rhyfel yn tueddu i gryfhau teimladau moesol a chrefyddol y rhai sydd yn cymeryd rhan ynddo. Byddai rhai felly yn sicr o fod wedi cael y profiad hyny yn ngoruchwylion cyffredin bywyd - y dyledswyddau cyffredin, yn y siop, yn y swyddfa, ar y fferm, neu yn y pwll glo - caent yno ddigon o le i'r gwasanaeth hunan-anghofiedig dros eraill, yr hwn yw sylwedd perffaith crefydd.

Dyna yw gwir grefydd, ac nid "dim ond moesoldeb." Nid yw gwasanaeth o'r fath ddim yn bosibl ond lle byddo canfyddiad o undeb bywyd dynol, a'r unig sail resymol i'r undeb hwnw yw Duw, yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod. Nid yw canfyddiad o'r fath yn brin neu yn eithriadol; mae yn gyffredin ddigon. Dyna olygwn wrth ddweyd fod dyn yn naturiol yn grefyddol. Mae ei natur yn cael ei fynegiant llawnaf yn y ffydd hon yn unig; tra mae'r dyn sydd a'i feddwl yn wastad yn troi o amgylch iddo ei hunan, yn treulio ei fywyd mewn modd sydd yn groes i holl ddeddfau ei fodolaeth. Os wyf yn cyfeiliorni yn hyn oll, sut y dygwydd mai'r gweithredoedd a'n cynhyrfant fwyaf yw y rhai lle mae bywyd wedi bod mewn perygl, neu wedi ei aberthu yn yr ymdrech i achub arall, hyd yn oed os bydd yr arall hwnw yn "elyn?" Mae'r dyn sy'n peryglu ei einioes yn yr ymdrech i ddinystrio gelynion ei wlad yn cyffroi cymeradwyaeth ei gydwladwyr oherwydd ei *wladgarwch*; ond mae'r dyn sy'n rhuthro allan i "*no-man's-land*" heb yr un arf, i achub ac i helpu dyn clwyfedig, heb aros i ofyn pa un ai cyfaill neu elyn yw, yn ennill cariad ac edmygedd y ddwy ochr drwy ei *ddynoliaeth.* Y mae Dynoliaeth a'i wreiddiau mewn Dwyfoliaeth, mewn geiriau eraill, mae dyn yn blentyn Duw; ac yn sicrhau ei wir hunan mewn ymroddiad hunan-anghofiadol yn ngwasanaeth ei frodyr. Y "grefydd bur a dihalogedig" hon yw'r unig feddyginiaeth effeithiol rhag rhyfel ac ymryson — diwydiannol, masnachol, ie, a theuluol hefyd. Gadewch ini ei dreio. —*J.M.W.*

Tri pheth gwell na chyfoeth,—iechyd, rhyddid, synnwyr.

Tri pheth a gaiff cybydd o'i gyfoeth, - poen yn casglu, gofal yn cadw, ofn colli.

Tri dyn y dylid bod yn drugarog wrthynt, - alltud, gweddw, amddifad.

Tri pheth ardderchog ar ddyn, - caru rhinwedd, cashau ffolineb, dysgu yn wastadol.

Tri pheth daionus i ddyn,— meddwl yn dda, dywedyd yn dda, gwneuthur yn dda.

Tri pheth a ddaw ar ddyn heb yn wybod iddo,—cwsg, pechod, henaint.

Tri harddwch gwlad,—ysgubor, gefail, ysgol.

Tri pheth a ddylid eu cadw fyth yn agored,—clust, llygad, deall.

YR AWRLAIS A'R ORIAWR.

Gwelwyd gwr yn ddiweddar yn symud o un ty i dy arall i fyw. Yr oedd o duedd gynil a darbodus, a phenderfynodd, hyd y gallai, i gario ei holl ddodrefn ar ei gefn ei hun. Pan ddaeth at yr awrlais mawr—y *grandfather's clock*—ymdrechodd gario hwn hefyd. Symudodd y pwysau, a gosododd ef ar ei ysgwydd lydan. Fel yr oedd yn cripian o dan y pwysau mawr drwy y dref, gwaeddodd cymydog ffraeth arno, "John, fachgen, oni fyddai *watch* yn fwy defnyddiol i chwi?" Ac yn wir fe fyddai, gan fod oriawr yn y logell yn fwy cyfleus nag awrlais ar y cefn.

Adgofir ni am y stori hon yn y dyddiau hyn, pan mae'r eglwysi Cristionogol yn ceisio uno'r enwadau, rhwystrir hwynt gan gymaint y baich gariant o hen draddodiadau a chredoau, ffurfiau a seremoniau, nes mae'r ymdrech yn ymddangos bron yn anobeithiol. Drwy'r holl amser y mae yn hongian ar hoel gyfleus ac o fewn cyrhaedd pawb, oriawr fechan brydferth o waith y Penoriorydd, ac un y mae yn gynyg i'n gwasanaeth. Efe a ddywedodd: "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl, ac a'th holl nerth: hwn yw y gorchymyn cyntaf. A'r ail sydd debyg iddo, Câr dy gymydog fel ti dy hun." At hwn ychwanegodd un cyfarwyddyd arall, "Canlyn di fyfi."

Bydded i'r eglwys sydd wedi ei gorlwytho gan gredoau i ufuddhau i'w Meistr; pe byddai yn cyhoeddi i'r holl ddaear gyda llais udgorn: "Y mae yna lawer o bethau o fwy a llai eu pwys yn deilwng o'n sylw, megis cwymp dyn yn Eden, awduraeth y Pum Llyfr, asyn Balaam a morfil Jonah, bedydd babanod neu rai mewn oed, yr enedigaeth wyryfol a'r gwyrthiau; eithr gwybydded pawb dynion mai *nid dyma yw Cristionogaeth.* A gwybydded pawb dynion yn mhellach mai *hyn yw Cristionogaeth*, sef "caru Duw a'n holl galon, a charu ein cymydog fel ni ein hunain, ac i ddilyn Iesu Grist." Bydded i'r Eglwys, gyda grym argyhoeddiad, i lefain gyda llef uchel yr un llais hwn. Ac yna fe ddigwydd eto, fel yn y dyddiau gynt pan gododd y Meistr yn y llong fechan yn nghanol y dyfroedd berwedig, ac a ddywedodd, "Gosteg fôr. A bu tawelwch mawr."

TATHOS.

LLYFR BYCHAN.

Nid yw un o'r Efengylau ond llyfr bychan iawn! Gellwch ei ddarllen mewn rhywbeth tuag awr. A dyna'r oll oedd gan yr ysgrifenydd i'w ddweyd wrthym am fywyd o fwy na deng mlynedd ar hugain—bywyd wedi ei dreulio mewn gwlad ddieithr ini—gydag arferion a chwstymau gwahanol iawn i'r eiddom ni. Yr ychydig hyn yw yr oll sy genym i'w ddysgu am Iesu. Mae ei fychander yn dangos fod yn rhaid i'r myfyrdod arno ddibynu llawn cymaint arnom ni ein hunain ag ar y llyfr—gan alw allan holl gyneddfau sylw, diwydrwydd, ymchwiliad gofalus, dychymyg clir, ac amgyffrediad cywir. Symbyla'r galluoedd hyn ynom, gwna ddefnydd o honynt ar ol eu symbylu, a gwobrwya hwynt, wrth eu defnyddio drwy ddadguddio ini gymeriad syml, cyson, prydferth Crist, yr hwn a gydia ar unwaith yn ein meddwl a'n calon, ac yn mhob un o'r ddau a gymer i fyny ei oruchafiaeth priodol.

YMRANIADAU'R EGLWYS.

Dyma ddywed Philip Henry (1631—96) tad Matthew Henry (1662—1714) yr esponiwr :—

"Er yr holl ymraniadau trist yn yr eglwys, mae'r holl saint, mor bell ag y maent wedi eu sancteiddio yn un yn eu hamcan, yn un yn eu cais, yn un eu cyfeillgarwch a'u cariad, yn un yn eu buddiant, un yn eu hetifeddiaeth. Mae'r pethau y cytunant arnynt o fwy pwys na'r hyn y gwahaniaethant yn eu cylch. Maent oll o'r un feddwl yn mherthynas i bechod, mae'r peth gwaethaf yn y byd yw ; yn nghylch Crist, ei fod oll yn oll ; yn nghylch ffafr Duw, ei fod yn well na bywyd ; yn nghylch y byd, mai gwagedd yw ; yn nghylch, Gair Duw, ei fod yn werthfawr iawn."

[*Quoted in Diaries and Letters, Edited by Matthew Henry Lee. Published 1882*].

Yr oedd Philip Henry yn fab i John Henry, yr hwn a anwyd Gorphenaf 10, 1590. Yr oedd John yn fab i Henry Williams, o Briton Ferry. Yr oedd ganddo frawd o'r enw William, a thair chwaer, Ann, Joan, Jane.

Bu farw John Henry yn White Hall, Chwefror 28, 1652.

Ganwyd Philip Henry, Awst 24, 1631, yn White Hall ; traddododd ei bregeth gyntaf Ionawr 9, 1653 ; bu farw Mehefin 24, 1696. Mae rhai wedi casglu mai offeiriad Briton Ferry oedd Henry Williams.

Fel hyn y mae terfyn ewyllys Philip Henry : "Witness my hand and seal this 24th day of August, 1695, being the day of the year in which I was born, 1631, and also the day of the year in which by law I died, as did also near 2,000 other faithful ministers of Jesus Christ, 1662."

R. J. J.

MARWOFION.

AWST 25, bu farw Evan Davies, Ffrwdywhiad Arms, gynt o'r Mount Pleasant, ger Cribyn, yn 67 oed, ar ol amryw wythnosau o gystudd, gan adael dwy chwaer i alaru ar ei ol. Claddwyd ei weddillion yn Nghapelygroes y Llun canlynol. Gwasanaethwyd yn y ty ac ar lan y bedd gan y Parch. R. E. Davies, ficer Ystrad, ac yn y capel gan weinidog y lle.

MEDI 5, yn 76 mlwydd oed, Mr. Evan Davies, Cware, ger Pencader. Claddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Pencader, y dydd Mawrth dilynol, pryd y pregethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul, a gweddiwyd gan y Parch. D. John (A.), Pencader, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer y plwyf a'r Curad. Hanai yr ymadawedig o deulu Undodaidd, a chredwn ei fod yn wyr i John Thomas, Pontsian, awdwr "Cwyn y Cristion" a'r emyn poblogaidd sydd yn dechreu, "O'i gariad yn y dechreu, &c." Treuliodd ei fywyd priodasol hir o dros haner canrif, oddigerth am dymhor byr, yn y lle uchod. Yr oedd wedi ei ddonio, fel ei dylwyth, â thalent geiddorol uwchlaw y cyffredin, a gwnaeth ddefnydd canmol-

adwy o honi, drwy fod yn arweinydd y gân yn eglwys Llanfihangel-ar-Arth am dymor hir. Yr oedd yn gymydog hawddgar, ac iddo air da gan ei holl gydnabod. Gadawodd mewn galar o'i golli briod sydd wedi ei gadael yn unig yn awr, tri mab a dwy ferch, heblaw wyrion a pheithynasau eraill. Y mae un o'r meibion yn y fyddin yn gwasanaethu yn yr India. Nodded y nef fyddo drostynt oll.

MEDI 9, yn 77 mlwydd oed, Margaret Davies, Aberythan, ger y Gorrig, Llandyssul, gynt o Blaenllain a'r Llether. Claddwyd y dydd Mercher dilynol, yn mynwent Tregroes; y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu yn y ty, a Ficer y plwyf yn yr eglwys. Gadawodd ddwy chwaer a brawd mewn hiraeth o'i cholli.

HYDREF 5, yn 44 mlwydd oed, bu farw David Jones, Vale of Tivy, Llanybyther, ar ol cystudd byr ond caled. Ychydig ddiwrnodau cyn hyn, yr oedd yn dilyn ei alwedigaeth, ond disymwth y daeth yr alwad gan ddiyllio'r teulu, a heddyw y mae gweddw a merch ieuanc ynghyd a chwaer yn wylo eu colled. Cymwynaswr parod ydoedd, caredig a thynergalon. Yr oedd ei sirioldeb diwenwyn a'i yspryd addfwyn wedi enill serch ardal eang. Ar y dydd Llun canlynol gosodwyd ef i orwedd ym mynwent yr Eglwys Newydd (Capel Dewi), Llandyssul. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. James (A.), Rhydybont, a T. O. Williams, B.A., Llanbedr, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan Gurad y plwyf. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Nghapel Nonni, Llanllwni—hen gartref crefyddol yr ymadawedig,—gan y Parch. T. O. Williams, ar nawn Sul, Hydref 15, oddiar y geiriau, "Dy noddfa yw Duw Tragwyddol ac odditanodd y mae'r beichiau tragwyddol." Nodded y nef fo tros y weddw a'r amddifad.

HYDREF 20, yn 62 mlwydd oed, Mrs. Anne Lewis, anwyl briod Mr. David Lewis. Bronheulog, Llandyssul, gynt o Woodland, Talgarreg. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar Mr. John Thomas, Factory, Talgarreg, ac yn un o ddeuddeg o blant, o ba rai nid oes ond un o honynt wedi ei adael ar ol, sef Mr. T. G. Thomas, Talgarreg. Bu yn dihoeni am dymhor hir, a byrhawyd ei dyddiau yn ddiau pan gollodd ei mhab, Evan Tom, yr hwn oedd yn parotoi gyferbyn a'r weinidogaeth. Yr oedd wedi etifeddu llawer o dalent y teulu, a chanddi feddwl bywiog, a darllenai lawer. Yr oedd y rhyfel yn ofid mawr i'w chalon ac yn faich ar ei hyspryd, yn enwedig felly pan aeth un o'i meibion allan i Ffrainc, yr hwn sydd yn Is-gadben yn y fyddin yno, ac y mae un arall wedi ymuno a'r llynges. Gweithiodd yn galed ac aberthodd lawer dros ei theulu. Claddwyd ei gweddillion marwol yn mynwent Bwlchyfadfa, y dydd Llun dilynol. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. C. Griffiths (B.), Penybont, a Ben Davies (A.), Seion; pregethwyd yn y capel gan y Parch. Arthur Thomas, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd briod, pedwar o feibion, a brawd, mewn galar mawr o'i cholli. Duw'r diddanwch fyddo'n nodded ac amddiffyn iddynt.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol——Fantdefaid, 9s. 3c.; Cefncoed, 7s. 6c.; Llwynrhydowen, 7s. Drwg genym na fuasai yr olaf wedi ymddangos yn gynt.

GELLIONEN A'R GRAIG.—Nosau Medi 22ain a'r 27ain, yn Ysgoldy Gosen, Trebanos, tan arweiniad y Parchn. David Davies, Periglor Eglwys St. Michael, Trebanos, a D. G. Rees, Gellionen, trefnwyd dau gyfarfod i roesawu dau filwr clwyfedig o faes cad Ffraingc, ym mhersonau Mri. Idris Joseph, a Samuel Davies, y ddau o Drebanos. Cawd cyrddau hwylus iawn.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.—Cynhaliodd yr eglwysi canlynol eu gwyl ddiolchgarwch am y cynhauaf fel arfer. Cafwyd cynulliadau lluosog, a chasglwyd, bron yn ddieithriad, tuag at y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor. Yr oedd y trefniadau fel y canlyn—Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa: Pregethwr—y Parch. Lewis Williams, Alltyplacca. Caeronen a Brondeifi: Pregethwyr—y Parch. D. Cellan Evans a'i Gweinidog. Capelycwm: y Parch. T. Arthur Thomas. Pantdefaid a'r Graig, Llandyssul: y Parch. Lewis Williams, T. Oswald Williams, B.A., Ben Davies (A.), Seion, a'r Gweinidog. Alltyplacca: y Parch. T. Arthur Tnomas. Capelybryn: y Parch. E. Glyn Edwards, (B.), a'r Gweinidog. Cribyn a Chapelygroes: y Parchn. D. Cellan Evans. Rhydygwin a Ciliau: Parch. Cenech Davies, (A.), Cilcenin. Gellionen a'r Graig, Trebanos: pregethwyd gan y Gweinidog. Da genym hefyd ddeall fod y Parch. Lewis Williams, Allyplacca, wedi bod yn pregethu yn nghyrddau diolchgarwch Brynteg, (A.), gyda boddlonrwydd mawr.

HOLWYDDORI.—Gofynwyd i ddiacon yn ddiweddar, a oedd yn credu yn anffaeledigrwydd y Beibl. Adeiladu llongau ydoedd y gwr wrth ei alwedigaeth, a Ianci o genedl. Attebodd y cwestiwn wrth ofyn un arall, "A ydych erioed wedi synu," meddai, "os y buwyd am gant ac ugain o flynyddoedd yn adeiladu yr arch, sut na fuasai ei gwaelod heb bydru?"

HELA HERESI.—Y mae y Canon Rashdall, o Henffordd, yn cael ei gyhuddo o heresi ddifrifol, am ei fod wedi dywedyd "na ddarfu i'r Iesu erioed hawlio ei fod yn Dduw," ac mai yn raddol y daeth i'w feddwl mai "efe oedd y Messiah addawedig." Awgrymir yn y "*Church Times*" ei fod yn fwy o Undodwr na'r Dr. Stopford Brooke, a chynghora Canon Rashdall i ddilyn ei esiampl anrhydeddus.

LLYFRAU Y DIWEDDAR THOMAS STEPHENS (1821—75) O FERTHYR.—Deallwn fod y rhai gore, dros gant o honynt, yn Llyfrgell y Brifysgol, yn Nghaerdydd, a'r gweddill yn Llyfrgell Merthyr.

MAE pregeth y Parch. E. D. Priestley Evans, y cyfeiriwyd ati yn rhifyn Gorphenaf, tud. 128, newydd ei chyhoeddi gan y B. & F., ac i'w chael am geiniog. Mae yn bregeth dda, ac yn bregeth brydlawn, a dylai gael derbyniad gwresog yn Nghymru. Pwnc y bregeth yw—"*The Testing Times of Faith.*"

MAE'R John Davies, o'r Brif Lyfrfa, yn Aberystwyth, wedi gwneud gwaith da i gyhoeddi "Rhestr o'r Llyfrau" gyhoeddwyd gan John Ross, rhwng 1763 a 1807." Ceir yn eu plith enwau lluaws o lyfrau a ddylent apelio at Undodiaid.

DYDDOROL iawn yw erthygl Mr. D. R. Phillips, ar "*A Forgotten Welsh Historian,*" yn y "*Journal of the Welsh Bibliographical Society,*" am *July, 1916.* Y person anghofiedig yw William Davies, 1756–1823.

CYFARFODYDD HYDREF

— Y —

British and Foreign Unitarian Association.

CYNHELIR YR UCHOD YN

LLWYNRHYDOWEN a CHAPELYGROES,

— DYDD MAWRTH, TACHWEDD 21ain, 1916. —

Bydd y trefniadau fel y canlyn :—

1.30—MISSIONARY CONFERENCE.

Chairman—Josiah R. Jones, Esq.
(President, South Wales Unitarian Association.)
Devotional Service—Rev. Lewis Williams.
Speakers : Rev. T. P. Spedding.
Rev. Bertram Lister, M.A.
Rev. Rudolf Davis, B.A.
Rev. W. J. Phillips.

3—RELIGIOUS SERVICE.

Devotional Service—Rev. John Davies.
Preacher—Rev. W. G. Tarrant, B.A.

4.30—TEA—at Pontshan Council School.

6—PUBLIC MEETING.

Chairman—Rev. E. O. Jenkins.
Devotional Service—Rev. T. Arthur Thomas.
Speakers : H. G. Chancellor, Esq., M.P.
Rev. W. H. Drummond, B.A.
Mrs. Sydney Martineau.
Rev. Arthur W. Fox, M.A.
Rev. W. Copeland Bowie.

6—MEETING AT CAPELYGROES.

Chairman—Rev. David Evans.
Devotional Service—Rev. D. Cellan Evans.
Speakers : Rev. Bertram Lister, M.A.
Rev. T. P. Spedding.
Rev. Rudolf Davis, B.A.
Rev. W. G. Tarrant, B.A.

Gwasanaethir y Sul blaenorol, y 19eg, yn eglwysi cylch Llandyssul, gan y Parch. VALENTINE DAVIS, B.A., Bournemouth.

Taer erfynir am gynulliadau lluosog ym mhob cyfarfod.

Hon. Secretary—T. ARTHUR THOMAS, Awelon, Llandyssul.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. D. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1915.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz. :—			
£2 10s. 0d. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1916	360,352	4	8
„ Balance of Profit and Loss Account	113,597	15	2
	9,254,742	9	10
„ Current, Deposit and other Accounts	147,759,702	0	6
„ Acceptances on account of Customers	9,157,601	11	9

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	30,881,200	14	6
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,651,357	17	9
„ Investments :—			
War Loans, and other British Government Securities ...	33,946,384	8	2
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	481,040	5	8
British Railway Debenture and Preference Stocks	2,400,295	19	9
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	962,062	7	6
Sundry Investments	1,039,650	15	7
„ Bills of Exchange	9,961,545	13	9
	88,323,438	2	8
„ Advances on Current Accounts, &c....	65,921,541	11	9
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	9,157,601	11	9
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,760,464	15	11